

Bu cymaint o gonsyrn ynglŷn â diffygion posib yn y cladin Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm (DCA) a ddefnyddiwyd ar Dŵr Grenfell. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r cladin DCA ei hun yn beryglus, ond mae'n bwysig y defnyddir y math cywir. Os byddwch yn adnabod y gwnaed y cladin ar unrhyw un o'ch adeiladau, gan gynnwys asiantaethau partner a'r sector ehangach, o DCA, yna bydd angen profi sampl. Fodd bynnag, mae angen blaenoriaethu hwn ac eglurwyd hwn yn Atodiad A.

I sicrhau y gallwn fod yn hyderus fod yr ystâd gyhoeddus ehangach yn ddiogel, gofynnwn i chi wneud y tri pheth canlynol:

- 1. Adnabod pa un o'ch adeiladau a'r rhai hynny o fewn y sector ehangach sydd â chladin DCA a ph'un ai ydyn nhw'n flaenoriaeth flaenaf.** (Cynhwysir nodyn cyngor technegol a ddanfonodd ACLI L at awdurdodau lleol a chymdeithasau tai'r wythnos ddiwethaf o fewn Atodiad A)
- 2. Danfonwch samplau o gladin DCA i'w profi yn unol â'r tabl yn Atodiad A.**
- 3. Trefnu cwblhau'r arolwg yn Atodiad C ar bob adeilad lle bydd angen profi a dychwelyd i Unedau Eiddo'r Llywodraeth erbyn diwedd Dydd Gwener y 30ain o Fehefin. Bydd Unedau Eiddo'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r rhai hynny ohonoch sydd eisoes wedi rhoi arolygon ar waith.**

Os canfyddwch banelau DCA nad sy'n cydymffurfio ar eich adeiladau, mae Atodiad B hefyd yn nodi sut i ymateb. Mae'n hanfodol yr hysbysir y gwasanaeth tân a'i fod yn cynnal archwiliad.

Atodiad A: - Adnabyddiaeth adeiladau i brofi DCA a beth i'w wneud os byddant yn methu.

Sut i adnabod pa adeiladau sydd angen danfon samplau o Gladin Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm i'w profi.

Os oes gan adeilad DCA, dylech ymgynghori'r tabl isod sy'n seiliedig ar ddogfen berthnasol gymeradwy B a chyfarwyddyd adrannol:

Uchder ysgogol ar gyfer archwilio Systemau Cladin DCA			
Defnydd yr Adeilad	Llety Dros Nos	Uchder Ysgogi/llawr*	Profwyd?
Ysgolion	Oes	Unrhyw uchder	Do
Nac Oes	18 metr neu fwy	Oes	
Cyfleusterau gofal iechyd (gan gynnwys Ysbytai)	Oes	2 lawr neu fwy	Do
Nac Oes	18 metr neu fwy	Yes	
Pob Adeilad arall	Oes	18 metr neu fwy	Do

**Mesurir uchder o'r llawr ar ei bwynt isaf i arwyneb uchaf y llawr uchaf (heblaw am ystafelloedd peiriannau)*

Sicrhewch eich bod yn cyfathrebu hwn i'r bobl berthnasol sy'n gofalu am yr adeiladau o fewn eich sector ehangach a phob un o'ch asiantaethau partner sy'n cwrdd â'r meini prawf uchod a gofynnwch iddynt ddanfon samplau ar unwaith. Cadarnhaodd Trysorlys ei Mawrhydi bydd unrhyw gostau sydd ynghlwm yn disgyn ar adrannau neu i'w hasiantaethau partner.

Sut i gymryd sampl a'i ddanfon i'w brofi

Lle bydd syrfëwr sy'n ymgymryd ag asesiad panel cyfansawdd yn penderfynu ei fod yn angenrheidiol i'r cladin gael ei sgrinio mewn labordy, dylent ddilyn y weithdrefn hon:

1. Torrwch ddau sampl o faint 250 x 250mm man leiaf o bob lleoliad a samplwyd. Tynnwch luniau fel bo'r angen i adnabod lleoliad y sampl. Dylech gymryd samplau o uwchben ac o dan, 18 metr uwchben lefel y ddaear fel bo'n briodol a gwiriwch amryfal banelau lle bydd gennych bryder fod amrywiant ym manyleb y deunydd.
2. Gan ddefnyddio pin inc annileadwy, nodwch enw/rhif yr adeilad, cod post a chydabod unigryw, (h.y. blaenlythrennau'r eich sefydliad wedi'i ddilyn gan rif sampl unigryw, e.e. ABC/001 yn i leoliad penodol o fewn adeilad pob un sampl. Ychwanegwch enw'r awdurdod lleol neu'r gymdeithas dai perthnasol sy'n rheoli'r adeilad a rhif ffôn uniongyrchol neu gyswllt ffôn symudol, i'w ddefnyddio mewn achos lle bydd unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r sampl.
3. Rhaid i chi adfer wrth gau'r twll drwy ddefnyddio llen anhylosg megis dur wedi'i sefydlogi â sgriwiau neu rybedion hunandapio.
4. Cwblhewch yr holiadur yn Atodiad B a dychwelwch ef at GPUGrenfellresponse@cabinetoffice.gov.uk mewn e-bost sy'n cychwyn "ACM: [ENW'R SEFYDLIAD]". Dylech ddarparu cymaint o wybodaeth ag sydd ar gael yn barod, ond nid os bydd hwn yn oedi cyflwyno'r samplau i'w profi.
5. Gosodwch un o'r samplau o bob lleoliad mewn amlen glustodog gyda chopi o'r ffurflen ddychwelyd data (a atodwyd gyda'r llythyr). Marciwch AR FYRDER – SAMPL PRAWF O'R CLADIN yn glir ar yr amlen

6. Danfonwch y samplau prawf drwy law post cofnodedig neu gludwr at:

BRE

Bucknalls Lane

Garston

Watford

Swydd Hertford,

WD25 9XX

7. Am unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â phroffion, e-bostiwch

material.screening@bre.co.uk

8. Cadwch ail sampl o bob lleoliad ar gyfer eich cofnodion eich hun/rhag ofn y collir samplau wrth gael eu cludo.

Beth i'w wneud os bydd sampl yn methu prawf neu os byddwch yn amau bydd yn methu

Os caiff ei benderfynu fod yr inswleiddiad o fewn Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm (DCA)¹ yn annhebyg o gydymffurfio â gofynion y cyfarwyddyd Rheoliadau Adeiladu cyfredol, mae'n hanfodol eich bod yn cyflawni'r mesurau lliniaru dros dro canlynol **ar unwaith** i sicrhau diogelwch preswylwyr, yn amodol ar amnewid y cladid.

Mesurau dros dro a argymhellwyd gan banel o arbenigwyr annibynnol

Hysbyswch y Gwasanaeth Tân ac Achub. Hysbyswch adran diogelwch/atal

¹ Er osgoi amheuaeth; mae'r craidd (llenwr) sydd o fewn Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm (DCA) yn ddeunydd/gynnyrch inswleiddio", yn "gynnyrch inswleiddio" a/neu'n "ddeunydd llenwi" fel y cyfeirir ato ym Mharagraff 13.7 Deunydd/Cynnyrch Insweiddio", yn Adran 13 "Adeiladu waliau allanol" o Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) yr Ail Gyfrol (at ddibenion Cymru) Adeiladau heblaw am anheddau. (Y pwynt pwysig i'w nodi yw nad yw Paragraff 13.7 dim ond yn gymwys i inswleiddio thermol o fewn adeiladaeth waliau, ond hefyd i unrhyw elfen o'r system gladid, gan gynnwys felly craidd y DCA).

tân eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol. Bydd methu â gwneud hyn efallai'n rhoi ymladdwyr tân yn ogystal â phreswylwyr mewn perygl Bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cyflawni archwiliad brys gyda'r 'person cyfrifol', i sicrhau eu bod yn adnabod ac yn cyflwyno mesurau dros dro priodol fel y nodwyd isod. Bydd y Gwasanaeth Tân yn cynnal archwiliad pellach wedi i'r mesurau dros dro gael eu cwblhau:

- Gwiriwch y cynhaliwyd asesiad risg tân o fewn y 12 mis diwethaf ac y cwblhawyd yr argymhellion o fewn cynllun gweithredu'r asesiad; hefyd, cadarnhewch na fu unrhyw newidiadau materol (i'r adeilad, i'r mesurau diogelwch tân neu'r feddiannaeth) a all, o bosib, tanseilio dilysrwydd yr asesiad risg tân. Os na chynhaliwyd asesiad risg tân, rhaid i chi drefnu asesiad risg tân ar unwaith i'w gyflawni gan berson cymwys, (e.e. gan berson a restrwyd ar gofrestr aseswyr risg tân a weithredwyd gan gorff proffesiynol neu gorff ardystio, neu yn ddewisol, gan gwmni a ardystiwyd gan gorff ardystio trydydd parti sydd, ei hun, yn achrededig â Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Gyfunol i weithredu'r cynllun ardystio). Mae cyfarwyddyd ar ddewis asesydd cymwys yma <http://www.cfoa.org.uk/19532>
- Sicrhewch fod meddianwyr yn deall yn llwyr y gweithdrefnau tân brys o fewn yr adeilad, yn enwedig. Sicrhewch fod hysbysiadau gweithdrefn dân yn gywir.
- Gwiriwch, ar lefel y llawr, neu ar unrhyw falconïau, na fydd unrhyw ddeunyddiau hylosg, (e.e. storio gwastraff) yng nghyffiniau'r cladin. Sicrhewch fod mesurau i atal deunyddiau hylosg mewn lleoliadau o'r fath, (e.e. gan rwystrau dros dro neu gyfarwyddiadau i breswylwyr). Na chânt ddefnyddio barbeciw ar unrhyw falconi.

- Gwiriwch fod pob drws mynediad a drysau sy'n agor i goridorau a grisiau dianc yn ymwrthod tân ac, mewn gwirionedd, yn hunan gau yn erbyn unrhyw ymwrthedd clicied (neu, er enghraifft, mewn achos ystafelloedd peiriannau neu gypyrddau, y cânt eu cadw ynghlo). Am gyfarwyddyd ar y drysau hyn, ymgynghorwch â chyfarwyddyd y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar ddiogelwch tân - <https://www.local.gov.uk/fire-safety-purpose-builtflats> - ond yn gyffredinol, bydd drysau a ystyriwyd i fod yn rhai oedd yn ymwrthod â thân ar adeg adeiladu'r bloc yn foddhaol. Amnewidiwch unrhyw ddrysau gwrthsefyll tân (fel drysau upvc nad sy'n gwrthsefyll tân) ar unwaith gyda setiau drws (h.y. drysau a fframiau) sy'n ardystiedig fel trydydd parti fel bydd yn rhoi o leiaf 30 munud o ymwrthedd tân.
- Gwiriwch yr holl waliau sy'n gwahanu ystafelloedd peiriannau a storfeydd ac ati rhag llwybrau dianc i sicrhau nad oes llwybrau amlwg i dân neu fwg ledus (e.e. tyllau lle bydd gwasanaethau, megis pibellau a cheblau yn pasio drwy waliau).
- Gwiriwch fod unrhyw systemau rheoli mwg, gan gynnwys systemau canfod tân cysylltiol, yn gweithredu'n gywir.
- Gwiriwch bob cyfleuster a ddarparwyd ar gyfer ymladdwyr tân gan gynnwys lifftiau ymladd tân a phibellau codi sych neu wlyb. Os oes gennych **UNRHYW** bryderon, dylech gysylltu â'ch gorsaf dân ac achub lleol, a fydd, os na fyddant wedi gwneud eisoes, yn cynnal archwiliad i sicrhau ymarferoldeb.
- Sicrhewch fod mynediad ffordd digonol a llawr caled i gerbydau ymladd tân fynychu digwyddiadau a sefydlu i ymladd unrhyw dân allanol.

- Gwiriwch fod deunydd inswleiddio neu unrhyw ddeunyddiau sy'n ffurfio'r ffasâd yn cwrdd â phob safon berthnasol.

- Os gwarchodir yr adeilad gan system taenellu awtomatig (neu system atal tân cyfartalog) efallai na fydd angen i chi gymryd camau cyfamserol pellach cyn amnewid y cladid.

- Os na warchodir yr adeilad gan system atal digonol rhaid i chi ystyried yr angen am fesurau cyfamserol. Rhaid i'r mesurau a fabwysiadwyd fod ar sail asesiad risg gan berson cymwys, ond bydd rhaid, o leiaf, ystyried y canlynol:
 - Cau meysydd parcio lle gall tân cerbyd ymyrryd â chladid
 - Darpariaeth system larwm tân cymunol dros dro, yn cynnwys canfodyddion mwg mewn mannau cylchredu ac ystafelloedd peiriannau a chanfodyddion tân (o bosib canfodyddion gwres yn hytrach na chanfodyddion mwg) mewn cydweithrediad â seinyddion larwm tân ym mhob fflat (lle bo'n berthnasol). Bydd hyn yn caniatáu i bob meddiannwr gael ei wagio'n gydamserol mewn achos o dân Bydd yr opsiwn hwn yn debyg o fod yn anaddas i flociau tal, lle bydd angen i nifer fawr o bobl ddefnyddio'r llwybrau dianc ar yr un pryd Efallai fydd y system yn peryglu system di wifr, yn defnyddio dyfeisiau radio i gyswllt.
 - Darpariaeth gwylio am dân gan swyddogion/wardeniaid patrol diogelwch a hyfforddwyd yn briodol.
 - Yn achos y risg mwyaf difrifol, rhaid rhoi ystyriaeth i beidio â defnyddio'r bloc hyd nes y cyflawnwyd gwaith adferol boddhaol

Atodiad B - Trosolwg Arolwg Unedau Eiddo'r Llywodraeth

Dylech chi a'ch asiantaethau partner gwblhau'r arolwg Rhestr Wirio Gwybodaeth. Dylai hwn gynnwys manylion o'ch sefydliad a chysylltiadau allweddol, a manylion o bob adeilad rydych yn adnabod eu bod yn cynnwys DCA ac sy'n cwrdd â'r meini prawf canlynol:

Uchder ysgogol ar gyfer archwilio Systemau Cladin DCA			
Defnydd yr Adeilad	Llety Dros Nos	Uchder Ysgogi/llawr*	Profwyd?
Ysgolion	Oes	Unrhyw uchder	Do
Nac Oes	18 metr neu fwy	Oes	
Cyfleusterau gofal iechyd (gan gynnwys Ysbytai)	Oes	2 lawr neu fwy	Do
Nac Oes	18 metr neu fwy	Oes	
Pob Adeilad arall	Oes	18 metr neu fwy	Do

** Mesurir uchder o'r llawr ar ei bwynt isaf i arwyneb uchaf y llawr uchaf (heblaw am ystafelloedd peiriannau)*

Manteision hwn yw:

- casglu gwybodaeth allweddol a manylion eraill efallai fydd angen arnom yn ystod yr wythnosau sy'n dod ; a
- sicrhau y danfonir canlyniadau profion samplau o adeiladau at gyswllt yr adeilad, i chi ac i Unedau Eiddo'r Llywodraeth ac ACLI L.